Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Practis Deintyddol Clive Street

Dyddiad arolygu: 3 Hydref 2016

Dyddiad cyhoeddi: 4 Ionawr 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.agic.org.uk



ISBN Digidol 978-1-4734-8403-0


© Hawlfraint y Goron 2017

# Cynnwys

1. Cyflwyniad ........ 2

2. Cyd-destun ........ 3

3. Crynodeb ........ 4

4. Canfyddiadau ........ 6

Ansawdd Profiad y Claf ........ 6

Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol ........ 9

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 16

5. Y Camau Nesaf ........ 19

6. Methodoleg ........ 20

Atodiad A ........ 22

## 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw’r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad ym Mhractis Deintyddol Clive Street yn 4 Stryd Clive, Caerffili, CF83 1GE ar 3 Hydref 2016.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Practis Deintyddol Clive Street yn bodloni’r safonau gofal a amlinellir yn y  Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau deintyddol ar ôl rhoi rhybudd, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu’r meysydd canlynol:

- Ansawdd Profiad y Claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr i sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i’n dull o arolygu.
- Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol – Rydym yn ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau’n darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau’n cael eu rheoli a’u harwain ac a yw’r diwylliant yn cefnogi’r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Rydym ni hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn unol â safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Clive Street yn darparu gwasanaethau ar gyfer cleifion yn ardal Caerffili yn ne Cymru.  Mae’r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Mae Practis Deintyddol Clive Street yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yn ogystal â gwasanaethau deintyddol y GIG.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys dau ddeintydd a thair nyrs ddeintyddol sy'n rhannu dyletswyddau’r dderbynfa.

Darperir ystod o wasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol preifat.

## 3. Crynodeb

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth a oedd yn dangos bod Practis Deintyddol Clive Street yn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Gwelsom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn fodlon iawn ar y gofal a ddarperir
- Roedd dogfennaeth a gwybodaeth ar gael a oedd yn dangos bod yr offer pelydr-X yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel
- Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael digon o gefnogaeth gan uwch staff y practis
- Roedd oriau agor estynedig i'r cleifion.

Rydym yn argymell y gallai'r practis wella'r canlynol:

- Mae'n rhaid gwirio'r holl offer a ddefnyddir mewn achosion brys yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod ar gael a'u bod yn ddiogel i'w defnyddio mewn achos o argyfwng gyda chlaf (llewygu)
- Mae angen cadw dogfennau'n ymwneud â gwaith cynnal a chadw offer er mwyn sicrhau bod yr offer yn ddiogel i'w defnyddio
- Mae angen i'r practis ddangos tystiolaeth o yswiriant indemniad staff a'i chadw
- Mae angen diweddaru rhai polisïau a gweithdrefnau
- Mae angen i'r staff ddilyn hyfforddiant mewn amddiffyn plant
- Mae angen i ddeintyddion wella agweddau ar gadw cofnodion.

Gwnaeth rhai o'n canfyddiadau ddynodi risg bosibl yn ymwneud â diogelwch cleifion. Gwnaethom ofyn i'r practis wneud gwelliannau ar unwaith mewn perthynas â chynnal a chadw darnau dynodedig o offer, tystysgrifau yswiriant indemniad priodol, a chofnodion cleifion. Yn unol â phrosesau AGIC, gwnaethom ofyn am sicrwydd ysgrifenedig ar unwaith gan y practis ynglŷn â'r camau oedd wedi cael eu cymryd.

Darparodd y practis dystysgrifau perthnasol ar gyfer y dogfennau oedd yn ofynnol o fewn yr amserlen y cytunwyd arni. Rhoddwyd sicrwydd ar lafar inni ar ddiwrnod yr arolygiad y byddai newidiadau i'r broses o gadw cofnodion cleifion

yn cael eu rhoi ar waith ar unwaith.  Rhoddwyd cadarnhad ysgrifenedig o'r camau a gymerwyd gan y practis deintyddol ar ôl hynny i AGIC.

# 4. Canfyddiadau

## *Ansawdd Profiad y Claf*

**Gwelsom fod cleifion a oedd yn ymweld â'r practis yn cael eu trin ag urddas, parch a charedigrwydd gan dîm y practis. Dywedodd cleifion a roddodd sylwadau eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth roeddent wedi'i dderbyn.**

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol a oedd yn cael eu darparu. Dychwelwyd cyfanswm o 24 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys:

> *"Dydw i erioed wedi cael unrhyw broblem cael fy ngweld ar fyr rybudd neu wrth wneud apwyntiad sy'n gyfleus i mi yn y practis deintyddol hwn. Bob amser yn gyfeillgar a chymwynasgar"*
>
> *"Triniaeth a chyngor ardderchog bob amser"*
>
> *"Mae'r ddarpariaeth gwasanaeth yn y practis hwn yn ardderchog a phe byddai'n rhaid i mi newid deintydd, byddwn i'n siomedig"*

Yn ddieithriad, nododd yr holl gleifion a ddarparodd holiadur eu bod yn fodlon iawn ar y gofal yr oeddent yn ei dderbyn.

<u>Gofal gydag urddas</u>

Gwelsom staff yn siarad â chleifion mewn modd cyfeillgar, urddasol a phroffesiynol.  Roedd yn ymddangos bod y staff yn dîm cyfeillgar, a gwelsom ni ymadweithio moesgar a chwrtais gyda'r cleifion.

Dywedodd cleifion wrthym eu bod wedi cael croeso yn y practis. Ychwanegodd rhai cleifion eu sylwadau cadarnhaol eu hunain ynglŷn â lefel y gwasanaeth roeddent wedi'i dderbyn ac agwedd a dull gweithredu holl dîm y practis.

Roedd y practis yn darparu ystod o driniaethau deintyddol preifat a thriniaethau deintyddol y GIG i blant ac oedolion. Roedd costau triniaethau deintyddol y GIG wedi'u harddangos yn y dderbynfa. Golygai hyn fod gwybodaeth ar gael i gleifion ynglŷn â faint y gallai eu triniaeth gan y GIG ei gostio.  Nid oedd y practis yn arddangos prisiau triniaethau deintyddol preifat, fel yr argymhellir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Gwnaethom argymell y dylai'r practis arddangos rhestr brisiau ar gyfer triniaethau deintyddol preifat.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r practis arddangos rhestr brisiau am driniaethau preifat i gleifion ei gweld.***

Gwelsom fod gan y practis daflen wybodaeth i gleifion, ond nid oedd wedi'i harddangos ac nid oedd ar gael i gleifion ei gweld. Gwnaethom gynghori'r practis i sicrhau bod copïau ar gael yn y man aros i gleifion eu gweld a/neu i fynd â nhw adref er mwyn cyfeirio atynt yn y dyfodol.

<u>Gofal amserol</u>

Gwelsom fod y practis yn gwneud ymdrechion i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld mewn da bryd.  Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion a roddodd sylwadau yn holiaduron AGIC wrthym nad oeddent wedi profi oedi o ran cael eu gweld gan ddeintydd ar ddiwrnod eu hapwyntiad.  Dywedwyd wrthym y byddai'r derbynnydd yn hysbysu cleifion o unrhyw oediad i'w hapwyntiad.

Roedd rhif ffôn cyswllt y tu allan i oriau ar gael i gleifion pe bai angen triniaeth ddeintyddol arnynt ar frys.  Dim ond ar neges peiriant ateb y practis yr oedd y rhif ffôn ar gael. Gwnaethom argymell y dylai'r practis ystyried cynnwys y wybodaeth hon yn eu taflen wybodaeth i gleifion a hefyd ystyried ei harddangos yn y man aros i gleifion ei gweld.

<u>Cadw’n iach</u>

Gwelsom mai ychydig o ddeunydd hybu iechyd oedd ar gael i gleifion ei weld yn nerbynfa'r practis. Efallai y bydd y practis yn dymuno ystyried cynyddu faint o ddeunydd sydd ar gael i gleifion, er mwyn helpu i hyrwyddo'r angen iddynt ofalu am hylendid ac iechyd eu ceg eu hunain.

Dywedodd yr holl gleifion wrthym eu bod yn teimlo eu wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth ddeintyddol.

<u>Gofal unigol</u>

Roedd y practis ar y llawr gwaelod ac roedd gris yn arwain i'r dderbynfa. Dywedodd staff wrthym eu bod yn gallu helpu cleifion i gyrraedd y practis gan eu bod yn defnyddio ramp cludadwy ar gyfer y rhai sy'n gweld y gris yn anodd mynd i fyny ac i lawr. Roedd y ddwy ystafell driniaeth ar lawr gwaelod y practis, ac roeddent yn hygyrch i gleifion oedd ag anawsterau symudedd.

Roedd gan y practis oriau agor estynedig, oedd yn golygu eu bod yn gallu cynnig apwyntiadau i gleifion a oedd yn gyfleus iddynt.

Nid oedd gan y practis broses ar gyfer galluogi cleifion i roi adborth rheolaidd ynglŷn â'r gofal a'r driniaeth a ddarparwyd iddynt. Dylai'r practis sefydlu proses i gael adborth gan gleifion yn rheolaidd ac mewn modd ffurfiol er mwyn caniatáu iddynt werthuso'r gwasanaethau a ddarparwyd.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis weithredu proses i gasglu adborth cleifion yn rheolaidd.***

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn gwyno ysgrifenedig. Fodd bynnag, roedd angen diweddaru'r wybodaeth er mwyn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â chanllawiau rheoliadol. Rhaid i'r practis sicrhau bod y broses gwyno ar gyfer cleifion preifat yn cael ei diweddaru i gynnwys y cyfeiriadau cywir at AGIC, ac er mwyn cydymffurfio â'r amserlenni rheoliadol ar gyfer ymatebion i gwynion gan gleifion preifat. Rhaid i'r practis sicrhau bod y prosesau cwyno ar gyfer y GIG a chleifion preifat yn cael eu harddangos yn glir i gleifion eu gweld.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid diweddaru gweithdrefn gwyno'r practis ar gyfer cleifion preifat er mwyn cydymffurfio â'r canllawiau rheoliadol. Rhaid arddangos y gweithdrefnau cwyno ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat er mwyn i'r cleifion edrych arnynt yn y practis.***

## *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*

**Gwelsom nad oedd tystysgrif ar gael i'r gwaith cynnal a chadw ar gyfer rhai offer ac roedd angen cynllun gwella ar unwaith i sicrhau bod yr offer yn ddiogel i'w defnyddio.**

**Gwelsom fod angen cael llawr newydd yn yr ystafelloedd triniaeth a'r ystafell ddadheintio a bod angen eu selio er mwyn gallu eu glanhau'n fwy effeithiol.**

**Gwnaethom nodi bod angen i'r practis weithredu proses ar gyfer cynnal archwiliadau clinigol, a bod angen cyflwyno gwiriadau rheolaidd o gyffuriau ac offer a ddefnyddir mewn achos brys.**

**Gwnaethom nodi bod angen gwneud gwelliannau i agweddau o broses cadw cofnodion y deintyddion a bod angen cynllun gwella ar unwaith er mwyn sicrhau eu bod yn cymryd camau i gydymffurfio'n llawn â'r safonau clinigol ar gyfer cadw cofnodion.**

<u>Gofal diogel</u>

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld â'r practis.

Yn ystod taith o'r practis, fe welsom fod pob ardal yn lân a thaclus heb unrhyw beryglon amlwg. Gwnaethom ddweud wrth y practis fod diwyg yr adeilad yn ymddangos yn ddi-raen ac roedd angen ei adnewyddu. Roedd offer diogelwch tân ar gael mewn gwahanol fannau o gwmpas y practis.  Gwelsom fod gan y practis gontract ar waith i gwmni allanol wirio'r offer tân. Gwelsom fod y gwiriadau hyn yn cynnwys profi'r larymau tân a'r goleuadau argyfwng. Er bod gan y practis ddiffoddwyr tân i'w defnyddio mewn achos o argyfwng, ni welsom dystiolaeth eu bod wedi'u gwirio i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio ers 2011.Gwnaethom hysbysu'r practis o'n canfyddiadau, a dywedodd y staff wrthym eu bod yn credu bod y contractwr yn gwirio'r diffoddwyr tân yr un pryd â'r larymau tân a'r goleuadau argyfwng. Fodd bynnag, ni welsom dystiolaeth o hyn. Gwnaeth y practis ddarparu tystiolaeth wedi hynny i ddangos bod y diffoddwyr tân wedi'u cynnal a'u cadw'n briodol.

***Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith***

***Rhaid i'r practis roi cadarnhad i AGIC bod y diffoddwyr tân wedi derbyn gwasanaeth cynnal a'u cadw o fewn y 12 mis diwethaf.***

Roedd contract ar waith ar gyfer symud a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gynhyrchid gan y practis yn ddiogel. Gwelsom fod gwastraff peryglus yn cael ei storio mewn cynhwysydd cloadwy tra'i fod yn aros i gael ei gasglu gan y cwmni contractio. Gosodwyd offer gwahanu amalgam er mwyn tynnu gronynnau amalgam (math o sylwedd deintyddol sy'n cynnwys mercwri) a geir mewn llenwadau deintyddol o ddŵr gwastraff cyn cael gwared arnynt yn ddiogel. Disgrifiwyd y trefniadau a oedd ar waith gyda'r cyngor lleol ar gyfer cael gwared ar wastraff nad yw'n beryglus (domestig).

Roedd ystafell ddadheintio ar wahân wedi'i gosod yn y practis. Roedd yr ystafell yn fach gyda lle cyfyngedig i staff weithio ynddo. Gwnaethom drafod gyda'r practis y byddent o bosibl yn dymuno ystyried cynlluniau i ailgynllunio'r ystafell ddadheintio i gyd-fynd â'r egwyddorion a nodir yn nogfen polisi a chyfarwyddyd Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 (Diwygiad 1).[1] Nid oedd cyfleusterau golchi dwylo ar wahân yn yr ystafell ddadheintio. Roedd cyfleusterau ar gael yn yr ystafell staff gerllaw i'r staff olchi eu dwylo. Gwelsom nad oedd y llawr yn yr ystafell ddadheintio wedi'i orchuddio a'i selio'n ddigonol, a oedd yn golygu ei fod yn anodd ei lanhau'n effeithiol.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r practis sicrhau bod y llawr wedi'i orchuddio a'i selio'n ddigonol er mwyn rhwystro dŵr, llwch a sbwriel rhag cronni yn y rhan o'r llawr nad yw wedi'i gorchuddio na'i selio yn yr ystafell ddadheintio y tynnwyd sylw'r deintyddion ati.***

Roedd yr offer dadheintio yn ymddangos mewn cyflwr da. Roedd un peiriant awtoclaf[2] yn cael ei ddefnyddio ac roedd tystysgrifau gosod/arolygu ar gael a oedd yn dangos ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio. Gwelsom fod llyfrau cofnodion wedi cael eu cynnal ar gyfer profion ar offer glanhau a sterileiddio, i ddangos eu bod yn parhau i fod yn ddiogel i'w defnyddio, fel yr argymhellir gan Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

---

[1] Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

[2] Siambr pwysedd yw peiriant awtoclaf a ddefnyddir i sterileiddio offer a chyflenwadau trwy orfodi ager dirlawn pwysedd uchel arnynt.

Dangosodd y staff broses ddadheintio a gwelsom nad oedd cyfarpar diogelu personol yn cael ei wisgo yn ystod y broses. Gwnaethom argymell y dylai'r staff wisgo cyfarpar diogelu personol priodol wrth ddadheintio fel yr argymhellir gan Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.Gwnaethom hefyd argymell y dylid arddangos protocolau dadheintio yn yr ystafell ddadheintio er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn dilyn yr un gweithdrefnau ar gyfer dadheintio.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis sicrhau bod cyfarpar diogelu personol priodol ar gael i'r staff sy'n dadheintio offer ei ddefnyddio.***

Yn dilyn y broses ddadheintio, roedd yr offer yn cael eu cadw mewn bagiau wedi'u selio er mwyn atal croes-heintio. Er bod y dyddiadau terfyn wedi'u hysgrifennu ar y bagiau, rydym wedi argymell y dylid hefyd ychwanegu'r dyddiadau y cafodd yr offer eu sterileiddio hefyd er mwyn cydymffurfio'n llawn â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis gofnodi'r dyddiad sy'n nodi erbyn pryd y dylid defnyddio neu ailbrosesu'r offer ar becynnau'r offer wedi eu dadheintio.***

Nid oedd y practis wedi cynnal archwiliad o'r trefniadau dadheintio. Gwnaethom argymell y dylai'r practis gynnal archwiliad o'r fath i asesu cydymffurfiaeth â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn rhan o'u gweithgarwch i sicrhau ansawdd.

Gwnaethom edrych ar yr holl gyfleusterau clinigol (ystafelloedd triniaeth) yn y practis. Roedd y rhain yn lân ar y cyfan. Fodd bynnag, gwnaethom weld bod yr arwynebau gwaith yn anniben, ac y byddant o bosibl yn atal y gallu i lanhau arwynebau'n effeithiol. Gwnaethom argymell y dylai'r practis ystyried cael lle gwahanol i storio offer, deunyddiau a gwaith papur a oedd yn cael eu cadw ar yr arwynebau gwaith. Gwelsom fod angen selio'r lloriau yn y ddwy ystafell driniaeth er mwyn caniatáu glanhau effeithiol i leihau croes-heintio.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis sicrhau bod y lloriau rhwng y cypyrddau a'r gorchudd llawr presennol yn cael eu selio (neu wneud trefniadau addas eraill) er mwyn rhwystro dŵr, llwch a sbwriel rhag cronni yn y rhan o'r lloriau nad yw wedi'i selio yn yr ystafell driniaeth y tynnwyd sylw'r deintyddion ati.***

Gwelsom fod offer a chyffuriau ar gael i'w defnyddio pe bai argyfwng gyda chlaf (llewygu/cwympo). Dywedwyd wrthym fod yr offer a'r cyffuriau a ddefnyddiwyd mewn achos brys yn cael eu gwirio bob mis. Gwnaethom argymell y dylid

gwirio'r offer a'r cyffuriau a ddefnyddiwyd mewn achos brys bob wythnos, ac y dylid cadw cofnodion i ddangos bod hyn wedi'i wneud yn unol â'r canllawiau cenedlaethol. Rhoddwyd sicrwydd i ni ar lafar y byddai'r camau cywirol hyn yn cael eu gweithredu.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod y cyffuriau a'r offer a ddefnyddir mewn achosion brys yn cael eu gwirio'n rheolaidd, yn unol â'r safonau ansawdd a osodwyd gan y Cyngor Dadebru (DU).***[3]

Roedd gan staff fynediad hawdd at gyfres o siartiau llif a oedd yn nodi'r camau y dylid eu cymryd, a'r cyffuriau i'w defnyddio, pe bai argyfwng gyda chlaf. Gwnaethom argymell y dylid storio'r rhain gyda'r cyffuriau perthnasol er mwyn hwyluso mynediad haws yn ystod argyfwng, a chytunodd y practis i ystyried ein canfyddiadau. Gwelsom gofnodion hyfforddiant a oedd yn dangos bod hyfforddiant y staff mewn dadebru cardio-pwlmonaidd (CPR) yn gyfredol ar gyfer y rhan fwyaf o'r staff.  Nid oedd un dystysgrif ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad. Dywedwyd wrthym fod yr aelod o staff wedi cwblhau hyfforddiant gyda gweddill y practis, ond bod y dystysgrif yn cael ei storio y tu allan i'r practis. Gwnaethom argymell y dylai'r practis gadw cofnodion o'r holl hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd i ddangos bod y staff wedi mynychu hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd o fewn y cyfnod priodol.

Daethom i’r casgliad bod gan y practis drefniadau ar waith i ddefnyddio offer radiograffeg (pelydr-X) yn ddiogel. Mae hyn oherwydd bod y rhan fwyaf o'r dogfennau a'r wybodaeth ofynnol ynglŷn â defnyddio’r offer pelydr-X yn ddiogel ar gael ac yn gyfredol.  Nid oedd y practis wedi sefydlu polisi amddiffyn rhag ymbelydredd. Gwnaethom hysbysu'r deintyddion o'n canfyddiadau a gwnaethant gytuno ar lafar i sefydlu polisi addas. Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod y deintyddion wedi diweddaru eu hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio, a’u bod yn bodloni'r canllawiau a amlinellir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

---

[3] Mae'r Cyngor Dadebru (DU) yn bodoli i hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil, a chydweithredu.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r practis weithredu Polisi Amddiffyn Rhag Ymbelydredd sy'n benodol i'r practis.***

Gwnaethom ystyried sampl o sganiau pelydr-X a gweld bod ansawdd y sganiau pelydr-X a oedd wedi'u cymryd yn amrywio'n fawr. Gwnaethom ddweud wrth y deintyddion y dylent ystyried defnyddio dalwyr ffilm er mwyn helpu i wella ansawdd y sganiau pelydr-X. Roedd prosesu'r sganiau pelydr-X yn digwydd yn awtomatig, ond nid oedd gan y practis system i gofnodi ansawdd y prosesu ar ddechrau'r diwrnod cyn bod ffilmiau cleifion yn cael eu prosesu. Gwnaethom argymell y dylai'r practis gyflwyno system ar gyfer gwneud archwiliad dyddiol i ddangos effeithiolrwydd prosesu sganiau pelydr-X.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis weithredu system ar gyfer gwirio'r gwaith o brosesu sganiau pelydr-X bob dydd. Dylid cofnodi canlyniadau'r gwiriadau mewn llyfr cofnodi.***

Nid oedd y practis yn gallu darparu tystysgrif i ddangos bod y cywasgydd[4] wedi cael ei wasanaethu o fewn y 26 mis blaenorol er mwyn sicrhau ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio ac yn addas i'r diben. Gwnaethom hysbysu'r practis o'n canfyddiadau a rhoddwyd sicrwydd i ni ar lafar bod y cywasgydd i fod i gael ei wasanaethu ar 7 Hydref 2016. Derbyniwyd tystysgrif briodol i ddangos bod y cywasgydd wedi cael ei wasanaethu ar 10 Hydref 2016.

***Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith***

***Rhaid i'r practis sicrhau bod tystysgrif cynnal a chadw gyfredol ar gael ar gyfer y cywasgydd. Rhaid cyflwyno tystysgrif i AGIC.***

<u>Gofal effeithiol</u>

Nid oedd gan y practis broses ar waith ar gyfer cynnal archwiliadau clinigol. Gwnaethom drafod hyn â'r deintyddion ac argymell y dylent gynnal ystod o archwiliadau clinigol gyda'r nod o nodi meysydd i'w gwella. Gwnaethom nodi rhai meysydd y dylid eu harchwilio, yn benodol cydymffurfiaeth â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, archwilio gwrthficrobaidd, archwilio cardiau

[4]Peiriant a ddefnyddir i ddarparu aer cywasgedig i offer deintyddol.

cofnod y tîm adolygu gan gymheiriaid, ac ansawdd delweddau'r sganiau pelydr-X.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis gynnal amrywiaeth o archwiliadau clinigol gyda'r bwriad o nodi meysydd i'w gwella yn rhan o weithgarwch y practis i wella ansawdd. Dylid datblygu a monitro cynlluniau gwella fel bo'n briodol.***

Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion deintyddol deg claf er mwyn asesu ansawdd y cofnodion. Roedd y sampl hon yn cynnwys cofnodion a oedd wedi’u cwblhau gan y ddau ddeintydd a oedd yn gweithio yn y practis. Gwelsom feysydd pryder yn ymwneud â safon cadw cofnodion yng nghofnodion cleifion a oedd yn golygu na allem fod yn sicr bod cleifion yn derbyn safon dderbyniol o ofal a thriniaeth.

Gwelsom fod angen gwneud gwelliannau ar unwaith yn y meysydd canlynol:

- Roedd y labeli adnabod cleifion (enw, cyfeiriad, dyddiad geni) yn aml yn anghyflawn ac nid oeddent wedi'u cynnwys ar holl fewnosodiadau a nodiadau cleifion yn y cofnodion clinigol. Roedd hyn yn golygu y gallai gwybodaeth cleifion gael ei chamleoli a'i ffeilio yn y lle anghywir ymysg cofnodion claf arall.

- Nid oedd hanes meddygol cychwynnol cleifion yn cael ei gofnodi bob amser yn nodiadau'r cleifion, a oedd yn golygu nad oedd manylion meddygol pwysig yn cael eu cynnwys ar gyfer pob claf.

- Nid oedd hanes meddygol wedi'i ddiweddaru bob amser a/neu wedi'i gofnodi yn ystod pob cwrs o driniaeth. Pan oedd gwybodaeth wedi'i chofnodi, nid oedd y deintyddion wedi'i chydlofnodi.

***Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith***

***Rhaid i'r deintyddion sicrhau bod cofnodion cleifion yn cydymffurfio â'r safonau a amlinellwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'r Safonau Iechyd a Gofal, i gynnwys yn benodol:***

- ***Manylion adnabod cleifion ar y cofnodion i gyd***

- ***Hanes meddygol cychwynnol ar gyfer pob claf newydd***

- ***Hanes meddygol wedi'i ddiweddaru ar gyfer pob claf yn ystod pob cwrs o driniaeth.***

Yn ogystal â'r uchod, gwnaethom ganfod themâu cyffredin ychwanegol oedd angen eu gwella:

- Nid oedd y deintyddion wedi nodi defnydd o alcohol a thybaco cleifion bob amser, nac unrhyw gyngor ar hybu iechyd a ddarparwyd. Hefyd, nid oedd cyflwr meinweoedd meddal yn cael ei gofnodi ar ddechrau pob cwrs o driniaeth. Byddai'r rhain yn dangos bod deintyddion wedi asesu cleifion o ran eu risg o ddatblygu canser y geg a'u bod wedi rhoi cyngor ar sut y gellid lleihau'r risg hon.

- Nid oedd archwiliadau periodontol sylfaenol wedi'u cofnodi yng nghofnodion cleifion, a oedd yn golygu nad oedd unrhyw dystiolaeth i ddangos bod y deintyddion wedi cynnal yr archwiliadau hyn ac wedi rhoi sylw i unrhyw ganfyddiadau.

- Nid oedd siartio sylfaen o'r dannedd yn bresennol yn y sampl o gofnodion cleifion. Mae hyn yn cadw cofnod darluniadol o'r geg ac yn cynorthwyo wrth gynllunio triniaeth ar gyfer y claf ac wrth adnabod y claf.

- Nid oedd cynllunio triniaeth, esboniad o'r dewis o driniaethau i'r cleifion, y driniaeth a roddwyd a'r cyfiawnhad dros ail-alw cleifion i'w hapwyntiad nesaf bob amser wedi'u cofnodi'n glir ar gyfer pob claf. Gwelsom fod meddyginiaeth wedi cael ei rhagnodi heb fod cyfiawnhad wedi'i nodi. Nid oedd cydsyniad cleifion wedi'i gofnodi yn y sampl o gofnodion cleifion a welsom.

Gwnaethom hysbysu'r deintyddion o'n canfyddiadau a rhoddwyd sicrwydd i ni ar lafar y byddai mesurau'n cael eu rhoi ar waith ar unwaith i roi sylw i'r meysydd o bryder.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis wneud trefniadau priodol i sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion a gwblheir ganddyn nhw yn cael eu cynnal yn unol â safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.***

Yn ogystal â hyn, nid oedd y rheswm dros gymryd sganiau pelydr-X a chanfyddiadau'r deintydd a gafwyd ganddynt wedi cael eu cofnodi yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis sicrhau eu bod yn cofnodi'r rheswm dros gymryd sganiau pelydr-X a'r canfyddiadau yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.***

## *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Roedd dau ddeintydd yn berchen ar y practis ac roeddent yn cael cefnogaeth tîm o dair nyrs ddeintyddol. Gwelsom fod amrywiaeth o bolisïau ar waith gyda'r nod o sicrhau diogelwch staff a chleifion. Roedd angen diweddaru rhai o'r polisïau.**

**Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan staff uwch y practis a'r tîm ehangach. Gwnaethant ddweud wrthym hefyd eu bod yn cael cyfleoedd i fynychu hyfforddiant perthnasol.**

**Dylai'r practis wneud trefniadau i sicrhau bod copïau o dystysgrifau hyfforddi ar gyfer yr holl staff clinigol ar gael i'w harchwilio gan AGIC.**

**Gwnaethom ofyn i'r practis roi sicrwydd ar unwaith bod yswiriant indemniad priodol ar waith ar gyfer yr holl staff.**

Roedd y ddau ddeintydd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd, ac roedd y nyrsys deintyddol yn eu cefnogi yn yr ystafelloedd triniaeth ac yn y dderbynfa. Pan wnaethom nodi meysydd i'w gwella, gwnaeth y tîm practis cyfan ddangos eu bod yn ymroddedig i roi sylw i'r rhain yn gyflym.

Yn ystod sgyrsiau gyda'r staff oedd yn gweithio ar ddiwrnod ein harolygiad, gwelwyd eu bod o'r farn eu bod yn cael digon o gefnogaeth gan y tîm practis cyfan yn eu swyddi. Gwelsom hefyd fod y staff yn bendant ac yn wybodus ynghylch eu gwahanol gyfrifoldebau.

Gwelsom fod ystod o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith gyda'r nod o sicrhau diogelwch staff a chleifion. Gwnaethom argymell y dylai'r practis ddiweddaru rhai o'r polisïau, er mwyn sicrhau eu bod yn rhoi digon o arweiniad i'r staff. Roedd y polisïau oedd angen eu diweddaru yn cynnwys y polisi amddiffyn plant, y polisi amddiffyn oedolion a'r polisïau cwyno.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r practis sicrhau bod ganddo bolisïau manwl wedi'u sefydlu o ran gweithdrefnau amddiffyn plant ac oedolion.***

Gwelsom dystysgrifau hyfforddi a oedd yn dangos bod staff wedi mynychu hyfforddiant ar bynciau a oedd yn berthnasol i'w swyddi. Cadarnhaodd y staff hefyd eu bod yn cael cyfleoedd i gwblhau hyfforddiant. Nid oeddem yn gallu gweld bod y staff wedi dilyn hyfforddiant ar amddiffyn plant, sy'n cael ei 'argymell yn gryf' gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.  Dywedwyd wrthym fod

y practis wrthi'n trefnu cwrs perthnasol i bob aelod o'r staff, ond dywedwyd eu bod yn cael trafferth mynychu cwrs yn y dyfodol agos.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r practis wneud trefniadau i sicrhau bod staff yn cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn plant. Rhaid i dystiolaeth o hyfforddiant fod ar gael i'w harchwilio gan AGIC.***

Er bod tystysgrifau hyfforddi ar gael ar gyfer rhai aelodau o'r staff ac ar gyfer hyfforddiant arall a ddilynwyd, dylai'r practis wneud trefniadau i gadw cofnodion ar gyfer pob aelod o'r staff clinigol, i ddangos eu bod wedi cwblhau hyfforddiant ar y pynciau hynny y mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn eu hargymell yn gryf.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis wneud trefniadau i gadw cofnodion o hyfforddiant ar gyfer yr holl staff clinigol sy'n gweithio yn y practis, i ddangos eu bod wedi cwblhau'r hyfforddiant ar y testunau hynny a 'argymhellir yn gryf' gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.***

Dywedodd y staff wrthym eu bod o'r farn bod y cyfathrebu ymhlith tîm y practis yn effeithiol. Gwelsom fod dyddiadau cyfarfodydd practis wedi'u cofnodi ynghyd ag agenda, ond nid oedd y practis wedi dogfennu'r trafodaethau a gafwyd yn ystod y cyfarfodydd na'r canlyniadau. Gwnaethom argymell y dylai'r practis ffurfioli canlyniadau'r cyfarfodydd practis a gynhelir er mwyn cyfeirio atynt yn y dyfodol.

Dywedodd y practis wrthym nad oeddent wedi cynnal unrhyw fath o arfarniad ar gyfer unrhyw aelod o'r staff. Gwnaethom argymell i'r practis y dylai pob aelod o'r staff gael gwerthusiad o'u gwaith yn rheolaidd, fel yr argymhellir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael arfarniad rheolaidd o'u gwaith.***

Gwelsom fod y staff clinigol wedi cael eu cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol i ymarfer eu proffesiwn.  Gwelsom dystysgrif i ddangos bod gan rai aelodau o'r staff yswiriant indemniad. Fodd bynnag, nid oedd y practis yn gallu darparu tystysgrif ar gyfer pob aelod o'r staff i ddangos bod ganddynt yswiriant indemniad priodol. Rhoddwyd sicrwydd ar lafar i ni fod gan bob aelod o'r staff yswiriant indemniad, ond bod y tystysgrifau perthnasol oddi ar y safle.

***Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith***

***Rhaid i'r practis ddarparu tystysgrifau ar gyfer AGIC i ddangos bod lefelau priodol o yswiriant indemniad ar waith ar gyfer yr holl staff.***

Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi derbyn brechiadau rhag Hepatitis B, i amddiffyn eu hiechyd eu hunain ac iechyd cleifion rhag heintiau.

Roedd deintyddion a oedd yn gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat. Roedd eu tystysgrifau cofrestru ag AGIC wedi'u harddangos mewn lle amlwg fel sy'n ofynnol dan reoliadau deintyddiaeth breifat. Roedd angen diweddaru eu tystysgrifau i gynnwys cyfeiriad cywir AGIC. Cytunodd y deintyddion i gysylltu ag AGIC fel bod modd cyflwyno tystysgrifau wedi'u diweddaru. Nid oedd tystysgrifau cyfredol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gael ar gyfer yr holl ddeintyddion oedd yn gweithio yn y practis. Yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat, mae'n ofynnol i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru feddu ar dystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'i chyflwyno o fewn y tair blynedd diwethaf.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i bob deintydd sy'n gweithio yn y practis sydd hefyd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu gwasanaethau deintyddol preifat feddu ar dystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a'i chyflwyno i AGIC i'w harchwilio.***

## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i’r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i’r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai’r cynllun gwella nodi'n glir pa bryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol Clive Street yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i’r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i’r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi’u hamseru. Yn gyffredinol, dylai’r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynglŷn â’r materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella’r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai’r practis roi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o’r broses arolygu deintyddol barhaus.

## 6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**<u>Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal</u>**




Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[5] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011[6]. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd

[5] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made

[6] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made

Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Trafodaethau â staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd lleol at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A'r adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

## Practis: Practis Deintyddol Clive Street

## Dyddiad yr Arolygiad: 3 Hydref 2016

| Rhif y Dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| 6 | Rhaid i'r practis arddangos rhestr brisiau am driniaethau preifat i gleifion ei gweld<br><br>*Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 2* | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'i diwygiwyd)<br>Rheoliad 14 | Mae rhestr graddfa ffioedd deintyddiaeth Breifat wedi cael ei harddangos yn glir yn yr ystafell aros. | Lyndsey Rich a Roger Collins – Perchnogion y Practis | 5/10/16 |
| 7 | Dylai'r practis weithredu proses i gasglu adborth cleifion ar lafar yn rheolaidd<br><br>*Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm* | Safonau Iechyd a Gofal Ebrill 2015<br>Safon 6.3 | Mae ffolder yn cynnwys holiaduron profiad cleifion, sydd wedi'i labelu'n glir, wedi'i roi yn yr ystafell aros, a chaiff ei adolygu bob wythnos. | Lyndsey Rich a Roger Collins – Perchnogion y Practis | 5/10/16 |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | *Deintyddol, Safon 2* | | | | |
| 7 | Rhaid diweddaru gweithdrefn gwyno'r practis ar gyfer cleifion preifat er mwyn cydymffurfio â'r canllawiau rheoliadol. Rhaid arddangos y gweithdrefnau cwyno ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat er mwyn i'r cleifion edrych arnynt yn y practis<br><br>*Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 5* | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'i diwygiwyd)<br>Rheoliad 15<br>Safonau Iechyd a Gofal Ebrill 2015<br>Safon 6.3 | Mae gweithdrefn gwyno'r practis ar gyfer cleifion preifat wedi'i hadolygu ac mae hysbysiad wedi'i arddangos yn glir yn yr ystafell aros. | Lyndsey Rich a Roger Collins – Perchnogion y Practis | 15/11/16 |
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |
| 9 | ***Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith***<br><br>Rhaid i'r practis roi cadarnhad i AGIC bod y diffoddwyr tân wedi'u cynnal a'u cadw o fewn y 12 mis diwethaf<br><br>*Rheoliadau Rhagofalon Tân (yn y* | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'i diwygiwyd)<br>Rheoliad 14 | Mae'r ddau ddiffoddwr tân yn y practis wedi cael eu harchwilio gan 'Fire-Rite UK', eu diweddaru, ac mae trefniadau wedi'u gwneud i'w gwasanaethu bob blwyddyn. | Lyndsey Rich a Roger Collins – Perchnogion y Practis | Hydref 2016 |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | *gwaith) 1997 a Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005* | | | | |
| 9 | Rhaid i'r practis sicrhau bod y llawr wedi'i orchuddio a'i selio'n ddigonol er mwyn rhwystro dŵr, llwch a sbwriel rhag cronni yn y rhan o'r llawr nad yw wedi'i gorchuddio na'i selio yn yr ystafell ddadheintio y tynnwyd sylw'r deintyddion ati<br><br>*Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 (Diwygiad 1)* | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'i diwygiwyd)<br><br>Rheoliad 14 | Mae cynllun wedi'i lunio ar gyfer darparu sinc ychwanegol a phlinth llawr er mwyn rhwystro dŵr, llwch a sbwriel rhag cronni. | Lyndsey Rich a Roger Collins – Perchnogion y Practis | 15/12/16 |
| 10 | Dylai'r practis sicrhau bod cyfarpar diogelu personol priodol ar gael i'r staff sy'n dadheintio offer eu defnyddio<br><br>*Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 (Diwygiad 1)* | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'i diwygiwyd)<br><br>Rheoliad 14 | Darperir sbectolau diogelu, menig 'Marigold' a ffedogau ac maent yn hygyrch i bob aelod o'r staff. | Lyndsey Rich a Roger Collins – Perchnogion y Practis | 03/10/16 |
| 10 | Dylai'r practis nodi'r dyddiad erbyn pryd y dylid defnyddio neu ailbrosesu'r offer ar becynnau'r offer | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 | Caiff offer eu sterileiddio, eu pecynnu a'u dyddio ar ddyddiad y sterileiddio a blwyddyn i hynny. | Lyndsey Rich a Roger Collins – Perchnogion | 04/10/16 |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | wedi'u dadheintio<br><br>*Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 (Diwygiad 1)* | (fel y'i diwygiwyd)<br><br>Rheoliad 14 | | y Practis | |
| 10 | Dylai'r practis sicrhau bod y lloriau rhwng y cypyrddau a'r gorchudd llawr presennol yn cael eu selio (neu wneud trefniadau addas eraill) er mwyn rhwystro dŵr, llwch a sbwriel rhag cronni yn y rhan o'r lloriau nad yw wedi'u selio yn yr ystafell driniaeth y tynnwyd sylw'r deintyddion ati<br><br>*Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 (Diwygiad 1)* | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'i diwygiwyd)<br><br>Rheoliad 14 | Rhoddwyd seliwr llawr silicon yn y ddwy ystafell driniaeth. | Lyndsey Rich a Roger Collins – Perchnogion y Practis | 30/11/16 |
| 11 | Rhaid i'r practis wneud trefniadau addas i sicrhau bod y cyffuriau a'r offer a ddefnyddir mewn achosion brys yn cael eu gwirio'n rheolaidd, yn unol â'r safonau ansawdd a osodwyd gan y Cyngor Dadebru (DU) | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'i diwygiwyd)<br><br>Rheoliad 14 | Caiff cyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys eu gwirio'n rheolaidd a chaiff yr offer eu harchwilio bob wythnos a'u cofnodi mewn llyfr sydd ynghlwm wrth yr achos brys. | Lyndsey Rich a Roger Collins – Perchnogion y Practis | 17/11/16 |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu’r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | *Safonau Ansawdd Cyngor Dadebru’r DU ar gyfer Arfer a Hyfforddiant Dadebru Cardio-pwlmonaidd, Gofal Sylfaenol* | | | | |
| 11 | Rhaid i'r practis weithredu Polisi Amddiffyn Rhag Ymbelydredd sy'n benodol i'r practis<br><br>*Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000* | Safonau Iechyd a Gofal Ebrill 2015, Safon 2.9 | Mae Polisi Amddiffyn Rhag Ymbelydredd ar gyfer y practis hwn wrthi'n cael ei ddatblygu. | Lyndsey Rich a Roger Collins – Perchnogion y Practis | 15/12/16 |
| 12 | Dylai'r practis weithredu system ar gyfer gwirio'r gwaith o brosesu sganiau pelydr-X bob dydd. Dylid cofnodi canlyniadau'r gwiriadau mewn llyfr cofnodi<br><br>*Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000* | Safonau Iechyd a Gofal Ebrill 2015, Safon 2.9 | Mae system fonitro ar gyfer y gwaith o brosesu sganiau pelydr-X ar waith a chaiff ei wirio bob dydd. Cofnodir pob canlyniad yn y llyfr cofnodi. | Lyndsey Rich a Roger Collins – Perchnogion y Practis | 21/11/16 |
| 12 | ***Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith***<br><br>Rhaid i'r practis sicrhau bod tystysgrif cynnal a chadw gyfredol ar | Safonau Iechyd a Gofal Ebrill, 2015 Safon 2.9 | Gwnaeth Mr Lyndsey Rich ymweld ag AGIC ar 10/10/16 i gyflwyno tystysgrifau. | Lyndsey Rich a Roger Collins – Perchnogion y Practis | 10/10/16 |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | gael ar gyfer y cywasgydd. Rhaid cyflwyno tystysgrif i AGIC<br><br>*Rheoliadau Systemau Pwysedd a Chynwysyddion Nwy Cludadwy 1989*<br><br>*Rheoliadau Diogelwch Systemau Pwysedd 2000* | | | | |
| 12 | Dylai'r practis gynnal amrywiaeth o archwiliadau clinigol gyda'r bwriad o nodi meysydd i'w gwella yn rhan o weithgarwch y practis i wella ansawdd. Dylid datblygu a monitro cynlluniau gwella fel bo'n briodol | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'i diwygiwyd)<br><br>Rheoliad 16 | Mae archwiliadau clinigol yn cael eu cynnal a byddant wedi'u cwblhau yn y flwyddyn newydd. | Lyndsey Rich a Roger Collins – Perchnogion y Practis | 15/01/17 |
| 13 | ***Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith***<br><br>Rhaid i'r deintyddion sicrhau bod cofnodion cleifion yn cydymffurfio â'r safonau a amlinellwyd gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a'r Safonau Iechyd a Gofal, i gynnwys yn | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'i diwygiwyd)<br><br>Rheoliad 14 | O ran manylion adnabod cleifion, nodir enw'r claf, ei ddyddiad geni a'i gyfeiriad, gan gynnwys y côd post, ar bob cerdyn cofnodi. Caiff cardiau mewnosod eu nodi yn yr un modd a'u rhoi mewn amlenni.<br><br>Rhoddir radiograffau o'r geg yn eu hamlenni a nodir enw'r claf, ei ddyddiad geni a dyddiad y sgan | Lyndsey Rich a Roger Collins – Perchnogion y Practis | 5/10/16 |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | benodol:<br><ul><li>Manylion Adnabod Cleifion ar y cofnodion i gyd</li><li>Hanes meddygol cychwynnol ar gyfer pob claf newydd</li><li>Hanes meddygol wedi'i ddiweddaru ar gyfer pob claf yn ystod pob cwrs o driniaeth</li></ul>*Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safonau 3 a 4* | | pelydr-X arnynt a'u gosod y tu mewn i gerdyn cofnod y claf.<br>Gofynnir i bob claf newydd gwblhau ffurflen hanes meddygol yn ystod eu hapwyntiad cyntaf.<br>Yn ystod pob cwrs triniaeth, gofynnir i'r cleifion wirio eu ffurflenni hanes meddygol, diweddaru unrhyw newidiadau, a llofnodi a dyddio i gadarnhau hyn neu i nodi nad oes unrhyw newidiadau. | | |
| 14 | Mae'n rhaid i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis wneud trefniadau priodol i sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion a gwblheir ganddyn nhw yn cael eu cynnal yn unol â safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion<br>*Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm* | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'i diwygiwyd)<br>Rheoliad 14 | Ar gyfer pob cwrs o driniaeth :<ul><li>Mae'r claf a'r deintydd yn gwirio'r ffurflenni hanes meddygol</li><li>Mae siartio deintyddol yn cael ei gofnodi</li><li>Mae archwiliadau periodontol sylfaenol yn cael ei gofnodi pan fo hynny'n berthnasol</li></ul> | Lyndsey Rich a Roger Collins – Perchnogion y Practis | 5/10/16 |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu’r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | *Deintyddol, Safonau 3 a 4* | | • Mae archwiliadau ceg allanol, meinwe meddal yn cael eu cofnodi<br><br>Mae'r defnydd o anesthetig lleol, ynghyd â'r rhif swp a'r dyddiad dod i ben, yn cael eu cofnodi pan fo hynny'n berthnasol. | | |
| 14 | Rhaid i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis sicrhau eu bod yn cofnodi'r rheswm dros gymryd sganiau pelydr-X a'r canfyddiadau yn unol â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.<br><br>*Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safon 4.1* | Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 | Mae'r ddau ddeintydd yn cofnodi bod sgan pelydr-X wedi'i gymryd, y rheswm dros gymryd y sgan, yn ogystal â chanfyddiadau a chanlyniad y sgan ar y cofnod cleifion ar adeg y driniaeth. | Lyndsey Rich a Roger Collins – Perchnogion y Practis | 5/10/16 |
| **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | | |
| 15 | Rhaid i'r practis sicrhau bod ganddo bolisïau manwl wedi'u sefydlu o ran gweithdrefnau amddiffyn plant ac | Safonau Iechyd a Gofal Ebrill 2015, Safon | Mae polisïau amddiffyn plant ac oedolion wrthi'n cael eu datblygu. | Lyndsey Rich a Roger Collins – Perchnogion | 14/01/17 |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | oedolion<br><br>*Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safonau 4 a 8* | 2.7 | | y Practis | |
| 16 | Rhaid i'r practis wneud trefniadau i sicrhau bod staff yn cwblhau hyfforddiant ar amddiffyn plant. Rhaid i dystiolaeth o hyfforddiant fod ar gael i'w harchwilio gan AGIC<br><br>*Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safonau 4 a 8* | Safonau Iechyd a Gofal Ebrill 2015, Safon 2.7 | Cafodd cwrs amddiffyn plant ei drefnu i ddechrau ar gyfer 3 Tachwedd. Fodd bynnag, cafodd y dyddiad hwn ei ganslo gan weinyddwr y cwrs. Aros am ddyddiad newydd gan Weinyddwr y Cwrs ar hyn o bryd. | Lyndsey Rich a Roger Collins – Perchnogion y Practis | 15/01/17 |
| 16 | Dylai'r practis wneud trefniadau i gadw cofnodion o hyfforddiant ar gyfer yr holl staff clinigol sy'n gweithio yn y practis, i ddangos eu bod wedi cwblhau'r hyfforddiant ar y testunau hynny a 'argymhellir yn gryf' gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol<br><br>*Safonau'r Cyngor Deintyddol* | Safonau Iechyd a Gofal Ebrill 2015, Safon 2.7 | Bydd cofnodion hyfforddiant staff yn cael eu cadw ar ffeil yn y practis a bydd pob aelod unigol o staff yn cadw eu cofnodion eu hunain hefyd. | Lyndsey Rich a Roger Collins – Perchnogion y Practis | 5/10/16 |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | *Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Safonau 4 a 8* | | | | |
| 16 | Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael arfarniad rheolaidd o'u gwaith<br><br>*Safonau Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol, Pennod 6* | Safonau Iechyd a Gofal Ebrill 2015, Safon 3.3 | Mae pob aelod o'r staff yn cael arfarniad bob chwe mis, a bydd copi ohono'n cael ei gadw gan y practis a'r aelod o staff yn unol â hynny. Mae'r rhain yn cael eu cynnal ar 1 Mehefin a 1 Rhagfyr bob blwyddyn. | Lyndsey Rich a Roger Collins – Perchnogion y Practis | 5/10/16 |
| 16 | ***Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith***<br><br>Rhaid i'r practis ddarparu tystysgrifau ar gyfer AGIC i ddangos bod lefelau priodol o yswiriant indemniad ar waith ar gyfer yr holl staff | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'i diwygiwyd)<br><br>Rheoliad 13 Atodlen 2 | Mae tystysgrifau wedi'u cyflwyno i AGIC. | Lyndsey Rich a Roger Collins – Perchnogion y Practis | 04/10/16 |
| 17 | Rhaid i bob deintydd sy'n gweithio yn y practis sydd hefyd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu gwasanaethau deintyddol preifat fod yn berchen ar dystysgrif y | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'i | Mae'r ddau ddeintydd wedi cofrestru gydag AGIC ac mae'r tystysgrifau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cyflwyno. | Lyndsey Rich a Roger Collins – Perchnogion y Practis | 21/11/16 |

| Rhif y Dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r practis | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a'i chyflwyno i AGIC i'w harchwilio | diwygiwyd)<br>Rheoliad 13 Atodlen 2 | | | |

**Cynrychiolydd y practis:**

**Enw (llythrennau bras):** **MRS JOANNE GOULDING**

**Teitl:** **NYRS DDEINTYDDOL**

**Dyddiad:** **21.11.2016**